



Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner

# Pecyn Addysg Comisiynydd y Gymraeg

## Cyflwyniad i Athrawon ac Ymarferwyr

Nod y pecyn addysg hwn yw cynnig ystod o adnoddau i athrawon ac ymarferwyr eu defnyddio wrth addysgu dysgwyr ysgolion uwchradd yng Nghymru am rôl Comisiynydd y Gymraeg a pherthnasedd gwaith y Comisiynydd i'w defnydd nhw o'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd. Mae'r pecyn yn cynnwys:

- **Chwe chyflwyniad PwerBwynt** i'w defnyddio ar lawr dosbarth er mwyn cyflwyno ac annog trafodaeth ynglŷn â chefnidir a rôl Comisiynydd y Gymraeg a defnydd dysgwyr o'r Gymraeg:
  - **Cyflwyniad 1:** Sefyllfa'r Gymraeg heddiw
  - **Cyflwyniad 2:** Pwy yw Comisiynydd y Gymraeg a beth yw ei rôl?
  - **Cyflwyniad 3:** Sefydliadau cyhoeddus yng Nghymru
  - **Cyflwyniad 4:** Busnesau/ sefydliadau preifat ac elusennau yng Nghymru
  - **Cyflwyniad 5:** Defnyddio'r Gymraeg mewn gweithgareddau chwaraeon
  - **Cyflwyniad 6:** Beth fedrwn ni ei wneud er mwyn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg?



- **Sgript i athrawon/ ymarferwyr** i gyd-fynd â'r chwe chyflwyniad PwerBwynt.




- **Pecyn o awgrymiadau o weithgareddau trawsgwricwlaidd** i gyd-fynd â'r chwe chyflwyniad PwerBwynt ynghyd ag atodiadau o adnoddau cefnogi a rhestr o adnoddau defnyddiol pellach er mwyn dyfnhau dealltwriaeth dysgwyr o rôl Comisiynydd y Gymraeg.



Mae'r pecyn wedi ei gynllunio i gyfateb â gofynion Cwricwlwm i Gymru, gan gynnig amrywiaeth o weithgareddau sy'n rhoi cyfle i ddysgwyr *ddysgu am eu hunaniaeth ddiwylliannol eu hunain a meithrin eu balchder yn eu hymdeimlad o hunaniaeth a pherthyn i Gymru yn ogystal â'r byd fel dinasyddion Cymru ddwyieithog mewn byd amlieithog.*<sup>1</sup>

Mae nifer o'r gweithgareddau yn cynnig cyfleoedd i'r dysgwyr ddatblygu sgiliau trawsgwricwlaidd mandadol Cwricwlwm i Gymru, sef **llythrennedd, rhifedd a chymwyseddau digidol**, a'u hannog i'w cymhwyso a'u datblygu ymhellach ar draws **chwe maes dysgu a phrofiad** y Cwricwlwm:



Un o brif amcanion y pecyn yn ogystal yw rhoi cyfleoedd i ddysgwyr sylweddoli **pedwar diben Cwricwlwm i Gymru**, sydd â'r bwriad o annog pob plentyn a pherson ifanc i ddatblygu i fod yn:

- ddysgwyr uchelgeisiol, galluog
- gyfranwyr mentrus, creadigol
- ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd
- unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Cynlluniwyd y pecyn i fod yn hyblyg er mwyn galluogi athrawon ac ymarferwyr i'w ddefnyddio mewn modd sy'n addas i'w dysgwyr ac sy'n cyd-fynd â'r amser sydd ganddynt. Mae'r gweithgareddau'n addas ar gyfer ystod o oedrannau uwchradd, a gellir eu haddasu a'u gwahaniaethu yn ôl yr angen.

1 [leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu: Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig - Hwb \(gov.wales\)](https://gov.wales)

# Gweithgareddau

## 1. Tasg drafod/ mynegi barn

Rhannwch rai o'r cardiau trafod (Atodiad 1) â'r dysgwyr mewn grwpiau bach a'u hannog i drafod a mynegi barn ynglŷn â'r wybodaeth/ datganiadau/ cwestiynau arnynt, gan ddefnyddio ymadroddion mynegi barn addas.

## 2. Tasgau graddio

- Dewiswch naw o'r cardiau 'Manteision Dwyieithrwydd' (Atodiad 2) a'u rhoi i'r dysgwyr mewn grwpiau bach. Gofynnwch iddynt drafod y datganiadau ar y cardiau a'u blaenoriaethu ar ffurf diagram diemwnt gan esbonio a chyfiawnhau eu safbwyntiau. (Gellid addasu rhywfaint ar y weithgaredd trwy roi deg cerdyn i'r dysgwyr eu trafod i ddechrau a gofyn iddynt hepgor un o'r datganiadau yn llwyr cyn graddio'r naw sy'n weddill ar ffurf diagram diemwnt.)
- Gellid gwneud y weithgaredd graddio uchod gan ddefnyddio naw neu ddeg o'r cardiau 'Manteision y Gymraeg' (Atodiad 3) yn ogystal (byddai hefyd yn bosibl defnyddio rhai o'r datganiadau ar y cardiau 'Manteision Dwyieithrwydd' yn y dasg hon pe byddech yn dymuno).
- Rhannwch nifer o'ch dewis (e.e. wyth, deg neu ddeuddeg) o'r cardiau gwag (Atodiad 4) â'r dysgwyr mewn grwpiau bach. Gofynnwch iddynt drafod a rhestru'r geiriau amlycaf sy'n dod i'w meddwl wrth ystyried yr iaith Gymraeg, cyn cofnodi pob gair ar gardiau unigol a graddio'r cardiau yn ôl trefn pwysigrwydd, ym marn y grŵp.



## 3. Tasgau didoli

- Rhowch y cardiau a welir yn Atodiad 5 i'r dysgwyr mewn grwpiau bach a gofyn iddynt eu didoli yn dri phentwr – sefydliadau cyhoeddus, sefydliadau neu fusnesau preifat, elusennau. Yna, anogwch hwy i drafod y gwahaniaeth rhwng sefydliadau cyhoeddus a sefydliadau/ busnesau preifat ac elusennau, o ran y gofynion a osodir arnynt yng nghyd-destun yr iaith Gymraeg.
- Rhowch y cardiau Gwir neu Gau (Atodiad 6) i'r dysgwyr mewn grwpiau bach, a'u hannog i'w didoli yn bentyrrau Gwir/ Gau. Mae'r datganiadau ar y cardiau yn seiliedig ar gynnwys cyflwyniadau 1 i 4. Gellid defnyddio'r datganiadau priodol ar ddiwedd pob cyflwyniad PwerBwynt yn ei dro, neu eu defnyddio i gyd gyda'i gilydd ar ôl rhannu'r chwe chyflwyniad PwerBwynt.



## 4. Tasgau trawsgwricwlaidd pellach

Dyma ambell enghraifft o dasgau trawsgwricwlaidd pellach y gallech annog dysgwyr i'w cwblhau mewn ymateb i gynnwys y cyflwyniadau PwerBwynt a/ neu'r tasgau trafod cychwynnol:

Ysgrifennu llythyr/e-bost at Gomisiynydd y Gymraeg ynglŷn â methiant sefydliad penodol i warchod hawliau siaradwyr Cymraeg,  
*neu*

Ysgrifennu llythyr/e-bost at Gomisiynydd y Gymraeg yn dilyn profiad cadarnhaol er mwyn canmol defnydd sefydliad penodol o'r Gymraeg.




Creu pamffled digidol yn cyflwyno gwybodaeth am rôl Comisiynydd y Gymraeg.

Ymchwilio i ddyddiadau a digwyddiadau pwysig yn hanes yr iaith Gymraeg a'u trefnu ar linell amser (e.e. Deddfau Uno 1536 ac 1542-43; Deddf Llysoedd Cymru 1942; Deddf yr Iaith Gymraeg 1967; Deddf yr Iaith Gymraeg 1993; Mesur iaith 2011, ayyb).



### Hanes yr iaith





Ymchwilio i a chyflwyno gwybodaeth am ieithoedd lleiafrifol eraill ledled y byd (gwaith ymchwilio, trin data, lleoli ar fap, ac ati), yn ogystal â rhai o'r gwledydd eraill sydd â Chomisiynwyr Iaith a gwaith IALC (International Association of Language Commissioners).


Cymharu'r Gymraeg ag un o ieithoedd lleiafrifol eraill y byd.



Creu hysbyseb digidol neu ysgrifennu araith yn annog busnesau/elusennau i gynnig mwy o wasanaethau dwyieithog, gan restru'r manteision.

Chwarae rôl/ creu deialog yn seiliedig ar sefyllfa lle nad yw'r cwsmer yn derbyn y gwasanaeth Cymraeg y gobeithiodd amdano gan sefydliad yng Nghymru.

Creu poster neu bamffled 'Manteision Dwyieithrwydd' neu 'Manteision Siarad Cymraeg' ar gyfer disgyblion eraill yr ysgol.



## AR AGOR OPEN

Cynnal arolwg o ddefnydd busnesau yn yr ardal leol o'r Gymraeg a chyflwyno a dadansoddi'r data.




Ysgrifennu araith neu greu cyflwyniad llafar/ fideo byr yn crynhoi gweledigaeth a phwysigrwydd Strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru.

Trefnu digwyddiad i  
hyrwyddo'r defnydd o'r  
Gymraeg yn yr ysgol  
neu'r ardal leol.

Dewis ac ymchwilio i ddigwyddiadau  
pwysig (cadarnhaol a negyddol) yn  
hanes yr iaith Gymraeg (e.e. Deddfau  
Uno 1536 ac 1542-43, hanes y Welsh  
Not, sefydlu Urdd Gobaith Cymru, darlith  
Tynged yr Iaith a hanes Cymdeithas yr  
Iaith, achos y Beasleys, hanes sefydlu  
S4C, ayyb) a chreu cyflwyniad llafar neu  
raglen ddogfen ddigidol.

Dylunio logo 'Defnyddia dy  
Gymraeg' addas i'w ddefnyddio  
yn yr ysgol er mwyn annog  
disgyblion eraill i ddefnyddio  
cymaint o'u Gymraeg â phosibl.



Gwyllo'r clip fideo hwn:  
[Hoff Air Cymraeg](#),  
cyn trafod a mynegi barn am eu  
hoff eiriau Cymraeg. Beth am  
greu rhestr neu eiriadur o hoff  
eiriau'r dosbarth?


Creu rhestr o hawliau  
siaradwyr Cymraeg  
i'w harddangos yn y  
dosbarth/ yr ysgol.

Creu cyflwyniad i rieni a  
llywodraethwyr yr ysgol a'r  
gymuned ehangach ynglŷn â  
manteision dwyieithrwydd.

Creu rhestr o 5 peth maen nhw'n  
eu gwneud o safbwynt hyrwyddo a  
gwarchod yr iaith Gymraeg, a 5 peth  
pellach y gallent eu gwneud. Beth am  
fynd ati i greu 'addunedau' fel dosbarth/  
blwyddyn o bethau y caren nhw eu  
gwneud er mwyn hyrwyddo'r defnydd o'r  
Gymraeg yn yr ysgol yn ystod y tymor/  
y flwyddyn?



# Cardiau Mynegi Barn

 **Torrwch y cardiau a'u rhannu â pharau/ grwpiau bach o ddysgwyr er mwyn eu hannog i drafod a mynegi barn am y datganiadau ar bob cerdyn.**



**Fedrwch chi  
esbonio'n gryno  
beth yw rôl  
Comisiynydd y  
Gymraeg?**

**Pam bod angen  
swydd Comisiynydd  
y Gymraeg,  
yn eich barn chi?**

**Mae Strategaeth 2050 Llywodraeth Cymru yn nodi bod y Gymraeg yn “un o drysorau Cymru” sy’n “ein diffinio fel pobl ac fel cenedl”.**

**Ydych chi’n cytuno â’r datganiad hwn? Pam? Rhowch resymau i gefnogi eich safbwynt.**

**Mae Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a Mesur y Gymraeg 2011 yn rhoi statws cyfartal i’r Gymraeg a’r Saesneg yng Nghymru.**

**Beth yw eich barn chi ynglŷn â hyn? Esboniwch eich safbwynt.**

**Ydych chi’n cytuno ei bod hi’n bwysig bod gan bobl Cymru yr hawl a’r rhyddid i siarad Cymraeg os ydyn nhw’n dymuno? Pam bod Mesur y Gymraeg 2011 yn bwysig yn hynny o beth?**

**Ydych chi’n credu ei bod hi’n bwysig bod siaradwyr Cymraeg yn defnyddio’r Gymraeg cymaint â phosibl wrth ddefnyddio gwasanaethau yng Nghymru? Pam? Rhowch resymau i gefnogi eich safbwynt.**

**Ydych chi’n credu ei bod hi’n bwysig bod siaradwyr Cymraeg yn rhoi gwybod i Gomisiynydd y Gymraeg os nad ydyn nhw’n gweld sefydliad cyhoeddus yng Nghymru yn parchu hawliau siaradwyr Cymraeg. Pam? Rhowch resymau i gefnogi eich safbwynt.**

**Pam bod angen swydd Comisiynydd y Gymraeg, yn eich barn chi?**



**Beth yw ystyr y gair ‘hawl’?**

**Allwch chi feddwl am hawliau eraill sydd gyda ni yn ein bywydau bob dydd?**

**Pam bod hawliau’n bwysig, tybed?**

**Beth yw pwrpas rheolau? Pam bod angen rheolau, yn eich barn chi? Pa fath o reolau ydych chi’n gorfod eu dilyn yn eich bywyd bob dydd? Beth yw effaith y rheolau hynny, tybed?**

**Fedrwch chi esbonio’n gryno beth yw rôl Comisiynydd y Gymraeg?**

**Pam ei bod hi’n bwysig bod sefydliadau’n defnyddio’r Gymraeg ar wefannau, ar y cyfryngau cymdeithasol ac mewn gwasanaethau digidol yn yr oes sydd ohoni, yn eich barn chi?**

**Pam bod y Gymraeg yn sgil mor bwysig ym myd gwaith erbyn hyn, yn eich barn chi?**

**Ydy Safonau’r Gymraeg yn bwysig, yn eich barn chi, er mwyn annog mwy o bobl i ddefnyddio eu Cymraeg bob dydd?**

***“Mae hi’n bwysig bod siaradwyr Cymraeg yng Nghymru yn medru byw eu bywydau bob dydd trwy gyfrwng y Gymraeg os ydyn nhw’n dymuno.”***

**Ydych chi’n cytuno neu’n anghytuno â’r gosodiad hwn? Pam? Rhowch resymau i esbonio’ch safbwynt.**

**Faint o gyfle ydych chi’n ei gael i ddefnyddio’r Gymraeg bob dydd? Oes digon/ dim digon o gyfle, yn eich barn chi?**

**Ydych chi’n gwneud cymaint o ddefnydd ag y gallech chi o’r Gymraeg yn eich bywyd bob dydd?**

**Beth allwch chi ei wneud er mwyn gwneud defnydd llawn o’r Gymraeg yn eich bywyd bob dydd?**

**Fedrwch chi esbonio sut mae hawliau Cymry Cymraeg i ddefnyddio’r iaith wedi newid dros y blynyddoedd diwethaf? Beth yw eich barn chi ynglŷn â hyn?**

***“Nid gwaith un person nac un sefydliad yw gwarchod y Gymraeg. Mae’n gyfrifoldeb ar bob un ohonom i helpu a gwneud ein rhan os ydyn ni am sicrhau dyfodol yr iaith.”***

**Ydych chi’n cytuno â’r datganiad hwn?**

**“Mae’r Gymraeg yn perthyn  
i bawb yng Nghymru,  
pa un ai ein bod ni’n siarad  
Cymraeg ai peidio.”**


**Ydych chi’n cytuno â’r  
datganiad hwn?**

**Cenedl heb iaith, cenedl  
heb galon.**

**Beth yw ystyr y dywediad  
hwn, yn eich barn chi?**

**Ydych chi’n cytuno â’r  
geiriau?**

# Cardiau Graddio – Manteision Dwyieithrwydd

-  **Torrwch y cardiau. Dewiswch naw neu ddeg cerdyn a gofynnwch i'r dysgwyr mewn grwpiau bach drafod y datganiadau ar bob cerdyn a'u graddio ar ffurf diagram diemwnt.**



Mae pobl ddwyieithog yn tueddu i'w chael yn haws canolbwyntio ar amrywiaeth o dasgau ar yr un pryd (amldasgio).

Mae pobl ddwyieithog yn tueddu i gael gwell canlyniadau mewn profion deallusrwydd.

**Mae pobl  
ddwyieithog yn  
tueddu i'w chael yn  
haws canolbwyntio  
ar amrywiaeth o  
dasgau ar yr un pryd  
(amldasgio).**

**Mae pobl  
ddwyieithog yn  
tueddu i fod yn fwy  
hyblyg, sensitif a  
chreadigol (sgiliau  
gwybyddol).**

**Mae bod yn  
ddwyieithog yn  
cynnig mwy o  
gyfleoedd i ni  
o ran hobiau a  
diddordebau.**

**Mae siarad dwy  
iaith yn ehangu eich  
gorwelion ac yn gallu  
agor drysau i fwy  
nag un diwylliant,  
hanes, hunaniaeth a  
chymuned.**

**Mae pobl  
ddwyieithog yn  
tueddu i'w chael  
hi'n haws clywed  
ieithoedd eraill a  
dysgu ieithoedd  
ychwanegol.**

**Mae ymchwil yn dangos  
bod dwyieithrwydd  
yn gohirio dechreuad  
Dementia a symptomau  
eraill clefyd Alzheimer  
yn ddiweddarach mewn  
bywyd.**

**Mae siarad dwy iaith yn cynnig mwy o gyfleoedd o ran swyddi ac yn gallu cynyddu eich siawns o gael swydd.**

**Mae siarad dwy iaith yn golygu sgil arall i'w rhoi ar eich CV neu ffurflen gais am swydd.**

**Mae siarad dwy iaith yn gwella ein cyfleoedd, nid yn eu cyfyngu.**

**Mae pobl ddwyieithog yn tueddu i ddangos mwy o empathi na phobl sydd ond yn siarad un iaith.**

**Mae medru newid o un iaith i'r llall yn hyderus yn magu hyder a balchder yn yr unigolyn.**

**Gall siarad mwy nag un iaith gynnig mwy o opsiynau astudio – e.e. mwy o ddewis o gyrsiau coleg neu brifysgol.**

**Mae siarad mwy nag un iaith yn helpu pobl i fod yn fwy meddwl agored a dangos mwy o werthfawrogiad a goddefgarwch at ddiwylliannau a chefnidiroedd eraill.**

**Mae pobl ddwyieithog yn aml yn well cyfathrebwyr yn y ddwy iaith.**

**Mae pobl ddwyieithog yn tueddu i gael gwell canlyniadau mewn profion deallusrwydd.**

**Mae pobl sy'n siarad dwy iaith yn tueddu i wneud yn well wrth weithio dan bwysau.**

**Mae siarad mwy nag un iaith yn cynnig ystod ehangach o weithgareddau cymdeithasol.**

**Mae dwyieithrwydd yn gwella ein dealltwriaeth o sut mae iaith yn gweithio (h.y. o ran gramadeg, ac ati).**

**Gall person  
dwyieithog  
gyfathrebu ag ystod  
ehangach o bobl na  
pherson sydd ond  
yn siarad un iaith.**

**Mae siarad dwy  
iaith yn cynyddu  
ein cyfleoedd i  
gymdeithasu a  
gwneud ffrindiau.**


**Mae siarad dwy  
iaith yn gwella  
ein canolbwyntio  
a'n cof.**

**Mae ymchwil  
yn dangos bod  
lefelau straen pobl  
ddwyieithog yn is na  
phobl sydd ond yn  
siarad un iaith.**





# Cardiau Graddio – Manteision y Gymraeg

 **Torrwch y cardiau. Dewiswch naw neu ddeg cerdyn a gofynnwch i'r dysgwyr mewn grwpiau bach drafod y datganiadau ar bob cerdyn a'u graddio ar ffurf diagram diemwnt.**



*Mae medru siarad  
Cymraeg yn rhoi  
hunaniaeth gadarn  
ac ymdeimlad o  
berthyn i ni.*

**Mae gallu siarad  
Cymraeg yn  
dangos ein bod  
ni'n unigryw yma  
yng Nghymru.**

**Mae plant sy'n derbyn  
addysg Gymraeg yn  
gwneud cystal, os nad  
gwell, yn Saesneg  
na phlant sy'n cael  
addysg uniaith  
Saesneg.**

**Mae medru siarad  
Cymraeg yn cynnig  
mwy o brofiadau  
a chyfleoedd  
cymdeithasol ac  
yn allwedd i fywyd  
cymunedol cyfoethog.**

**Mae medru siarad  
Cymraeg yn rhoi  
hunaniaeth gadarn  
ac ymdeimlad o  
berthyn i ni.**

**Mae'r gallu i siarad  
Cymraeg yn sgil yn  
y gweithle, ac erbyn  
hyn mae mwy a mwy  
o gyflogwyr yn chwilio  
am siaradwyr Cymraeg  
i lenwi pob math o  
swyddi.**

**Mae medru siarad Cymraeg  
yn ein galluogi i fwynhau  
diwylliant unigryw Cymru –  
boed hynny'n gerddoriaeth  
Gymraeg, rhaglenni  
teledu a ffilmiau Cymraeg,  
llynyddiaeth Gymraeg,  
digwyddiadau Cymraeg fel  
yr Eisteddfod Genedlaethol,  
ac yn y blaen.**

**Mae medru siarad  
Cymraeg yn ein  
helpu i fwynhau  
perthynas agosach  
â hanes, treftadaeth,  
hunaniaeth a  
thraddodiadau Cymru.**

**Mae medru siarad Cymraeg yn cynnig mwy o gyfleoedd o ran swyddi yng Nghymru ac yn gallu cynyddu ein siawns o gael swydd.**

**Mae siarad Cymraeg yn sgil arall i'w rhoi ar ein CV neu ffurflen gais am swydd.**

**Mae gallu siarad Cymraeg yn dangos ein bod ni'n unigryw yma yng Nghymru.**

**Gall siarad Cymraeg gynnig mwy o opsiynau astudio – e.e. y dewis o gyrsiau prifysgol trwy gyfrwng y Gymraeg.**




# Atodiad 4


# Atodiad 4


# Atodiad 4


# Cardiau didoli sefydliadau cyhoeddus/ preifat/ elusennau yng Nghymru

 **Torrwch y cardiau. Gofynnwch i'r dysgwyr weithio mewn grwpiau bach i dddidoli'r cardiau yn dri phentwr – sefydliadau cyhoeddus, sefydliadau neu fusnesau preifat, elusennau. Beth yw'r gwahaniaeth rhynddynt, o ran y gofynion a osodir arnynt yng nghyd-destun yr iaith Gymraeg?**

**Yr Amgueddfa  
Genedlaethol**

**Cronfa  
Gymunedol  
y Loteri  
Genedlaethol**



# Sefydliadau cyhoeddus

**Awdurdodau  
Lleol  
(yn cynnwys  
ysgolion)**

**Parciau  
Cenedlaethol**

**Gweinidogion  
yn Llywodraeth  
Cymru**

**Yr Amgueddfa  
Genedlaethol**

**S4C**

**Cronfa  
Gymunedol  
y Loteri  
Genedlaethol**



# Sefydliadau cyhoeddus

**Tribiwnlysoedd**

**Heddluoedd**

**Y Gwasanaeth  
Tân ac Achub**

**Colegau  
addysg uwch  
ac addysg  
bellach**

**Prifysgolion**

**Byrddau  
Iechyd**

# Sefydliadau/ busnesau preifat

**Archfarchnad  
Lidl**

**Principality**

**Boots**

**Undeb  
Rygbi Cymru**

**Xplore**  
(canolfan  
wyddoniaeth yn  
ardal Wrecsam)

**Archfarchnad  
Aldi**

# Elusennau

**WWF Cymru**

**NSPCC Cymru**

**RSPB Cymru**

**Macmillan  
Cymru**

**Gwobr Dug  
Caeredin**



# Cardiau didoli Gwir neu Gau



**Torrwch y cardiau.**

**Gofynnwch i'r dysgwyr  
weithio mewn grwpiau  
bach i'w didoli yn  
bentyrrau Gwir/ Gau.**



*Mae tua 15% o  
boblogaeth y byd  
yn ddwyieithog.*

*Y Gymraeg yw un  
o'r ieithoedd byw  
hynaf yn Ewrop.*

# Datganiadau yn seiliedig ar Gyflwyniad 1

**Mae tua 15% o boblogaeth y byd yn ddwyieithog.**

**Mae un iaith, ar gyfartaledd, yn marw rhywle yn y byd bob 14 diwrnod.**

**Amcangyfrifir y bydd tua 1,000 o ieithoedd lleiafrifol wedi marw erbyn dechrau'r ganrif nesaf.**

**Y Gymraeg yw un o'r ieithoedd byw hynaf yn Ewrop.**

**Fe adroddodd 35% o holl boblogaeth Cymru oedd dros dair mlwydd oed eu bod yn gallu siarad Cymraeg yng Nghyfrifiad 2021.**

**Nid gwaith un person nac un sefydliad yw gwarchod y Gymraeg – mae'n gyfrifoldeb ar bob un ohonom i helpu a gwneud ein rhan os ydyn ni am sicrhau dyfodol yr iaith.**

## **Datganiadau yn seiliedig ar Gyflwyniad 2**

**Cafodd swydd  
Comisiynydd y  
Gymraeg ei chreu  
gan Fesur y Gymraeg  
(Cymru) 1985.**

**Cyn Deddf yr Iaith  
1993 a Mesur y  
Gymraeg 2011  
doedd gan siaradwyr  
Cymraeg ddim yr un  
hawliau ag sydd gyda  
ni heddiw.**

**Yn ôl Mesur y Gymraeg  
2011 a Deddf yr Iaith  
Gymraeg 1993, mae'n  
rhaid i'r Gymraeg  
a'r Saesneg gael eu  
trin yn gyfartal yng  
Nghymru.**

**Ers mis Ionawr 2023,  
Efa Gruffudd Jones  
yw Comisiynydd y  
Gymraeg.**

**Cafodd swydd  
Comisiynydd y  
Gymraeg ei chreu  
er mwyn gwarchod  
hawliau siaradwyr  
Cymraeg.**



# Datganiadau yn seiliedig ar Gyflwyniad 3

**Mae dros 120 o sefydliadau cyhoeddus yn gweithredu safonau'r Gymraeg yng Nghymru.**

**Mae'r Amgueddfa Genedlaethol ac S4C yn enghreifftiau o sefydliadau cyhoeddus yng Nghymru.**

**Mae archfarchnad Lidl a NSPCC Cymru yn enghreifftiau o sefydliadau cyhoeddus yng Nghymru.**

**Mae'n rhaid i'r rhan fwyaf o sefydliadau cyhoeddus yng Nghymru fodloni dyletswyddau o ran y Gymraeg, sef Safonau'r Gymraeg sy'n cael eu gosod arnyn nhw gan Gomisiynydd y Gymraeg.**

**Erbyn hyn, mae nifer fawr o'r sefydliadau cyhoeddus sy'n gorfod bodloni safonau'r Gymraeg yn cynnig tua 50% o'u tudalennau gwe yn Gymraeg.**



# Datganiadau yn seiliedig ar Gyflwyniad 4

**Does dim rhaid i sefydliadau a busnesau preifat nac elusennau yng Nghymru fodloni Safonau'r Gymraeg, ond mae Comisiynydd y Gymraeg yn eu hannog yn gryf i gynnig gwasanaethau drwy'r Gymraeg.**

**Rhan o waith Comisiynydd y Gymraeg yw dangos i'r sefydliadau, busnesau ac elusennau hyn beth yw manteision cynnig eu gwasanaethau'n ddwyieithog.**

**Heddiw, mae tua 15 o sefydliadau wedi derbyn cydnabyddiaeth y Cynnig Cymraeg gan Gomisiynydd y Gymraeg.**

**Enghreifftiau o sefydliadau preifat yng Nghymru yw Undeb Rygbi Cymru a Gwobr Dug Caeredin.**

**Enghreifftiau o elusennau yng Nghymru yw WWF Cymru ac NSPCC Cymru.**





# Taflen atebion

## Datganiadau yn seiliedig ar Gyflwyniad 1

- Mae tua 15% o boblogaeth y byd yn ddwyieithog. (*Gau – Mae tua 43% o boblogaeth y byd yn ddwyieithog.*)
- Mae un iaith, ar gyfartaledd, yn marw rhywle yn y byd bob 14 diwrnod. (*Gwir*)
- Amcangyfrifir y bydd tua 1,000 o ieithoedd lleiafrifol wedi marw erbyn dechrau'r ganrif nesaf. (*Gau – Amcangyfrifir y bydd tua hanner y 7,000 o ieithoedd lleiafrifol sy'n cael eu siarad ar draws y byd wedi marw erbyn dechrau'r ganrif nesaf.*)
- Y Gymraeg yw un o'r ieithoedd byw hynaf yn Ewrop. (*Gwir*)
- Fe adroddodd 35% o holl boblogaeth Cymru oedd dros dair mlwydd oed eu bod yn gallu siarad Cymraeg yng Nghyfrifiad 2021. (*Gau – fe adroddodd 17.8% o holl boblogaeth Cymru oedd dros dair mlwydd oed eu bod yn gallu siarad Cymraeg yng Nghyfrifiad 2021.*)
- Nid gwaith un person nac un sefydliad yw gwarchod y Gymraeg – mae'n gyfrifoldeb ar bob un ohonom i helpu a gwneud ein rhan os ydyn ni am sicrhau dyfodol yr iaith. (*Gwir*)

## Datganiadau yn seiliedig ar Gyflwyniad 2

- Cafodd swydd Comisiynydd y Gymraeg ei chreu gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 1985. (*Gau – Cafodd swydd Comisiynydd y Gymraeg ei chreu gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.*)
- Cyn Deddf yr Iaith 1993 a Mesur y Gymraeg 2011 doedd gan siaradwyr Cymraeg ddim yr un hawliau ag sydd gyda ni heddiw. (*Gwir*)
- Yn ôl Mesur y Gymraeg 2011 a Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, mae'n rhaid i'r Gymraeg a'r Saesneg gael eu trin yn gyfartal yng Nghymru. (*Gwir*)
- Ers mis Ionawr 2023, Efa Gruffudd Jones yw Comisiynydd y Gymraeg. (*Gwir*)
- Cafodd swydd Comisiynydd y Gymraeg ei chreu er mwyn gwarchod hawliau siaradwyr Cymraeg. (*Gwir*)

## Datganiadau yn seiliedig ar Gyflwyniad 3

- Mae dros 120 o sefydliadau cyhoeddus yn gweithredu safonau'r Gymraeg yng Nghymru. (*Gwir*)
- Mae'r Amgueddfa Genedlaethol ac S4C yn enghreifftiau o sefydliadau cyhoeddus yng Nghymru. (*Gwir*)
- Mae archfarchnad Lidl a NSPCC Cymru yn enghreifftiau o sefydliadau cyhoeddus yng Nghymru. (*Gau – mae archfarchnad Lidl yn gwmni preifat ac mae NSPCC Cymru yn elusen.*)
- Mae'n rhaid i'r rhan fwyaf o sefydliadau cyhoeddus yng Nghymru fodloni dyletswyddau o ran y Gymraeg, sef Safonau'r Gymraeg sy'n cael eu gosod arnyh nhw gan Gomisiynydd y Gymraeg. (*Gwir*)
- Erbyn hyn, mae nifer fawr o'r sefydliadau cyhoeddus sy'n gorfod bodloni safonau'r Gymraeg yn cynnig tua 50% o'u tudalennau gwe yn y Gymraeg. (*Gau – Erbyn hyn, mae nifer fawr o'r sefydliadau cyhoeddus sy'n gorfod bodloni safonau'r Gymraeg yn cynnig dros 95% o'u tudalennau gwe yn y Gymraeg.*)

## Datganiadau yn seiliedig ar Gyflwyniad 4

- Does dim rhaid i sefydliadau a busnesau preifat nac elusennau yng Nghymru fodloni Safonau'r Gymraeg, ond mae Comisiynydd y Gymraeg yn eu hannog yn gryf i gynnig gwasanaethau drwy'r Gymraeg. (*Gwir*)
- Rhan o waith Comisiynydd y Gymraeg yw dangos i'r sefydliadau, busnesau ac elusennau hyn beth yw manteision cynnig eu gwasanaethau'n ddwyieithog. (*Gwir*)
- Heddiw, mae tua 15 o sefydliadau wedi derbyn cydnabyddiaeth Comisiynydd y Gymraeg. (*Gau – Heddiw, mae dros 100 o sefydliadau wedi derbyn cydnabyddiaeth Comisiynydd y Gymraeg.*)
- Enghreifftiau o sefydliadau preifat yng Nghymru yw Undeb Rygbi Cymru a Gwobr Dug Caeredin. (*Gwir*)
- Enghreifftiau o elusennau yng Nghymru yw WWF Cymru ac NSPCC Cymru. (*Gwir*)

**Sgriptiau'r  
cyflwyniadau  
PwerBwynt i  
athrawon ac  
ymarferwyr**



# Cyflwyniad 1:

## Sefyllfa'r Gymraeg heddiw



### Sleid 1 –

Tudalen deitl.

### Sleid 2 –

Oeddech chi'n gwybod bod tua 43% o boblogaeth y byd yn ddwyieithog (hynny yw, eu bod nhw'n medru siarad dwy iaith)?

A bod bron i 20% o boblogaeth y byd yn amlieithog (hynny yw, eu bod nhw'n medru siarad mwy na dwy iaith)?

Rydyn ni i gyd yma heddiw yn rhan o'r ystadegau hyn, oherwydd ein bod ni'n medru siarad dwy iaith, o leiaf. Pa mor arbennig mae hynny'n ein gwneud ni?

### Sleid 3 –

Trafodwch mewn paru/ grwpiau bach -

- Sut ydych chi'n teimlo ynglŷn â'r ffaith eich bod chi'n medru siarad mwy nag un iaith?

### Sleid 4 –

Trafodwch -

- Beth yw manteision bod yn ddwyieithog, yn eich barn chi?

### Sleidiau 5-15 –

*Gofynnwch i'r disgyblion rannu eu syniadau nhw eu hunain, yna trafodwch y manteision wrth iddynt ymddangos ar bob sleid.*

### Sleid 16 –

Oeddech chi hefyd yn gwybod bod un iaith, ar gyfartaledd, yn marw rhywle yn y byd bob 14 diwrnod? Mae hynny'n ddwy iaith bob mis, ac yn 24 o ieithoedd bob blwyddyn.

Amcangyfrifir y bydd tua hanner y 7,000 o ieithoedd lleiafrifol sy'n cael eu siarad ar draws y byd wedi marw erbyn dechrau'r ganrif nesaf.

Y Gymraeg yw un o'r ieithoedd byw hynaf yn Ewrop. Ond beth yw sefyllfa'r Gymraeg yn y cyd-destun hwn, tybed? Beth sydd angen gwneud i'w gwarchod a'i chryfhau er mwyn sicrhau nad yw hi mewn perygl o ddiffannu, fel cymaint o ieithoedd lleiafrifol eraill?

### Sleid 17 –

Yng Nghyfrifiad 2021, gwelwyd cynnydd bychan yn y ganran o bobl sy'n gallu siarad Cymraeg yn y grwpiau oedran oedolion ifanc (sef pobl 16 i 19 oed a phobl 20 i 44 oed), sy'n galonogol.

### Sleid 18 –

Er hynny, gwelwyd gostyngiad yng nghanran y boblogaeth 5 i 15 oed a nododd eu bod yn siarad Cymraeg rhwng 2011 a 2021, o 40.3% yn 2011 i 34.3% yn 2021, gostyngiad o 6.0 pwynt canran. Dyma oedd y gostyngiad mwyaf mewn pwynt canran ar gyfer unrhyw grŵp oedran.

Bu gostyngiadau ar gyfer pobl 45 i 64 oed, 65 i 74 oed a phobl 75 oed neu'n hŷn hefyd.

### Sleid 19 –

Ac, ar y cyfan, fe adroddodd 538,000 o boblogaeth Cymru oedd dros dair mlwydd oed (sef 17.8% o'r holl boblogaeth) eu bod yn gallu siarad Cymraeg. Roedd hyn yn ostyngiad o tua 23,700 o bobl ers Cyfrifiad 2011.

### Sleid 20 –

Trafodwch -

- Sut mae'r ffigyrau hyn yn gwneud i chi deimlo?

- Tybed pam, yn eich barn chi, bod llai o bobl ar y cyfan wedi nodi eu bod nhw'n gallu siarad Cymraeg yng Nghyfrifiad 2021 na 2011?

### **Sleid 21 –**

Yn 2017, fe gyhoeddodd Llywodraeth Cymru strategaeth Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr, er mwyn mynd i'r afael â'r gostyngiad yn y nifer o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru.

Bwriad Strategaeth Cymraeg 2050 yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg, ac annog mwy o bobl i siarad a defnyddio eu Cymraeg, er mwyn cyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

### **Sleid 22 –**

*“Mae'r Gymraeg yn un o drysorau Cymru. Mae'n rhan o'r hyn sy'n ein diffinio fel pobl ac fel cenedl. Ein huchelgais ni fel Llywodraeth Cymru yw gweld miliwn o bobl yn gallu mwynhau siarad a defnyddio'r Gymraeg erbyn 2050.”* **Cymraeg 2050, Llywodraeth Cymru**

### **Sleid 23 –**

*“Mae ymateb i'r her o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 yn galw am newidiadau pellgyrhaeddol. Mae angen gwthio'r ffiniau a chymryd camau uchelgeisiol fel bod mwy o bobl yn dysgu a defnyddio'r Gymraeg.”* **Cymraeg 2050, Llywodraeth Cymru**

### **Sleid 24 –**

Ceir tair thema ar gyfer gwireddu nod strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru:

1. Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg.
2. Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg.
3. Creu amodau ffafriol ar gyfer siarad a defnyddio'r Gymraeg.

### **Sleid 25 –**

Trafodwch -

- Rydyn ni'n ffodus oherwydd ein bod ni eisoes yn gallu siarad Cymraeg. Ond faint o Gymraeg ydych chi'n ei defnyddio yn eich bywyd bob dydd? Ble? Gyda phwy? Pam? Ydych chi'n gwneud cymaint o ddefnydd ag y gallech chi o'ch Cymraeg, tybed? Os na, pam ddim?

### **Sleid 26 –**

Mae gan nifer fawr o sefydliadau yng Nghymru rôl i'w chwarae wrth helpu gwireddu nod Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, ac mae Comisiynydd y Gymraeg yn un o'r rheini.

### **Sleid 27 –**

Ond, mae'n bwysig cofio bod y Gymraeg yn perthyn i bawb yng Nghymru. Nid gwaith un person nac un sefydliad yw gwarchod y Gymraeg – mae'n gyfrifoldeb ar bob un ohonom i helpu a gwneud ein rhan os ydyn ni am sicrhau dyfodol yr iaith.

### **Sleidiau 28-34 –**

#### Cwis

- Tua pha ganran o boblogaeth y byd sy'n ddwyieithog?

(43%)

- Sawl iaith, ar gyfartaledd, sy'n marw rhywle yn y byd bob blwyddyn?

(24 – 1 bob 14 diwrnod.)

- Allwch chi feddwl am dair mantais o fod yn ddwyieithog?

(Gweler y datganiadau ar sleidiau 5-16.)

- Yng Nghyfrifiad 2021, pa ganran o holl boblogaeth Cymru oedd dros dair mlwydd oed a adroddodd eu bod yn gallu siarad Cymraeg?

(17.8%)

- Bwriad strategaeth Miliwn o Siaradwyr Llywodraeth Cymru yw cyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn pa flwyddyn?

(2050)

## Cyflwyniad 2:

### Pwy yw Comisiynydd y Gymraeg a beth yw ei rôl?



#### Sleid 1 –

Tudalen deitl.

#### Sleid 2 –

Cafodd swydd Comisiynydd y Gymraeg ei chreu gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae Mesur y Gymraeg 2011 yn rhoi hawliau i siaradwyr Cymraeg yng Nghymru.

#### Sleid 3 –

Trafodwch -

- Beth yw ystyr y gair 'hawl'?
- Allwch chi feddwl am hawliau eraill sydd gyda ni yn ein bywydau bob dydd?
- Pam bod hawliau'n bwysig, tybed?

#### Sleid 4 –

Y prif bethau mae Mesur y Gymraeg 2011 yn eu gwneud yw:

- Rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru;
- Annog pobl Cymru i ddefnyddio'r Gymraeg a'i gwneud yn haws iddynt wneud hynny;
- Sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg;
- Creu Safonau'r Gymraeg, sef rhyw fath o reolau y mae'n rhaid i sefydliadau penodol yng Nghymru eu dilyn er mwyn rhoi chwarae teg i'r Gymraeg;
- Ymchwilio i gwynion os oes ymyrraeth â rhyddid pobl i ddefnyddio'r Gymraeg.

#### Sleid 5 –

Cafodd swydd Comisiynydd y Gymraeg ei chreu, felly, er mwyn gwarchod hawliau siaradwyr Cymraeg – fel chi a fi.

#### Sleid 6 –

Cyn Mesur y Gymraeg 2011, roedd Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 wedi rhoi statws cyfartal i'r Gymraeg a'r Saesneg yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Roedd hyn yn golygu bod yn rhaid i sefydliadau'r sector cyhoeddus yng Nghymru drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal.

Y sector cyhoeddus yw awdurdodau lleol, cyrff cyhoeddus, y llysoedd a'r Llywodraeth (ond mwy am hynny yn nes ymlaen).

#### Sleid 7 –

Felly cyn Deddf yr Iaith 1993 a Mesur y Gymraeg 2011 doedd gan siaradwyr Cymraeg ddim yr un hawliau ag sydd gyda ni heddiw, a doedd hi ddim mor hawdd iddyn nhw ddefnyddio'u Cymraeg bob dydd. Rydyn ni'n ffodus iawn, felly, o gymharu â siaradwyr Cymraeg oedd yn dymuno byw eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg rhyw 40 mlynedd yn ôl pan nad oedd nifer fawr o wasanaethau ar gael yn Gymraeg.

#### Sleid 8 –

Trafodwch -

- Sut ydych chi'n teimlo ynglŷn â'r ffaith bod gyda ni fel siaradwyr Cymraeg yng Nghymru heddiw fwy o hawliau nag oedd gan siaradwyr Cymraeg cyn Deddf Iaith 1993 a Mesur y Gymraeg 2011?

#### Sleid 9 –

Yn ôl Mesur y Gymraeg 2011 a Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, mae'n rhaid i'r Gymraeg a'r Saesneg gael eu trin yn gyfartal yng Nghymru, ac mae gan pobl Cymru yr hawl a'r rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg bob dydd.



### **Sleid 10 –**

Mae hyn yn clymu â nod strategaeth Cymraeg 2050 hefyd, sef bod y Gymraeg “*yn rhan arferol o fywyd bob dydd, fel bod siaradwyr ar bob lefel yn teimlo'n hyderus i'w defnyddio mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol, a bod pobl yn cymryd camau rhagweithiol i gynnig cynnyrch a gwasanaethau yn Gymraeg.*”

### **Sleid 11 –**

Rhan fawr o rôl Comisiynydd y Gymraeg yw gwarchod hawl a rhyddid siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'u Cymraeg bob dydd, os ydyn nhw'n dymuno.

### **Sleid 12 –**

Felly, pwy yw Comisiynydd y Gymraeg?

Ers mis Ionawr 2023, Efa Gruffudd Jones yw Comisiynydd y Gymraeg.

Mae panel cynghori yn cefnogi'r Comisiynydd, ac mae staff yn gweithio i'r Comisiynydd mewn lleoliadau ar draws Cymru.

### **Sleid 13 –**

Beth yw gwaith Comisiynydd y Gymraeg?

Mae Comisiynydd y Gymraeg yn ceisio sicrhau tegwch, cyfiawnder a hawliau i siaradwyr Cymraeg trwy hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg (hynny yw, annog pobl Cymru i siarad a defnyddio'r Gymraeg, a'i gwneud yn haws iddynt wneud hynny).

Gweledigaeth y Comisiynydd yw Cymru lle gall pobl ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd a byw eu bywyd yn Gymraeg.

Rhan fawr o hyn yw cynyddu darpariaeth gwasanaethau Cymraeg a chyfleoedd eraill i bobl ddefnyddio'r iaith.

### **Sleid 14 –**

Rôl y Comisiynydd yw ceisio sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ar draws pob sector yng Nghymru, yn enwedig yn y gweithle (lle mae pobl yn gweithio) ac yn y gymuned.

### **Sleid 15 –**

Yn ôl y Comisiynydd:

*“Rydym yn ymwybodol bod llawer o bobl yn derbyn addysg Gymraeg, ond nad ydynt yn defnyddio'r iaith ar ôl gadael yr ysgol. Mae'r gweithle'n lle allweddol i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg ac i roi cyfleoedd iddynt ddefnyddio'r iaith yn broffesiynol ac yn anffurfiol... Mae angen gwell trefniadau i recriwtio gweithlu dwyieithog sy'n medru defnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith a gyda'r cyhoedd bob dydd.”*

### **Sleid 16 –**

Mae'r Comisiynydd hefyd yn gallu ymchwilio os oes ymyrryd yn digwydd â hawliau pobl i ddefnyddio'r Gymraeg mewn amgylchiadau penodol.

Mae rhywun yn ymyrryd â'ch rhyddid os ydyn nhw'n:

- Dweud wrthy ch am beidio â defnyddio'r Gymraeg;

- Dweud y byddwch yn dioddef mewn rhyw ffordd oherwydd eich bod yn defnyddio'r Gymraeg.

### **Sleid 17 –**

Yn ôl ystadegau diweddar, dywedodd 18% o siaradwyr Cymraeg eu bod wedi cael profiad o rywun arall yn eu hatal rhag siarad Cymraeg yn eu bywydau bob dydd. Roedd hynny'n cynyddu i 29% o'r rheini a holwyd rhwng 16 a 34 oed.

### **Sleid 18 –**

Gall siaradwyr Cymraeg gysylltu â'r Comisiynydd os nad ydynt wedi gallu derbyn gwasanaeth yn Gymraeg gan sefydliad, neu os ydyn nhw'n anfodlon ynglŷn â'r ffordd mae sefydliad wedi ystyried y Gymraeg wrth wneud penderfyniadau.

Gallant gwyno am:

- Ddiffyg cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg;

- Anawsterau i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith;

- Anfodlonrwydd ynghylch sut mae sefydliad yn trin neu'n ystyried y Gymraeg.

### Sleid 19 –

Gwylwch y clip fideo byr hwn:

[Comisiynydd y Gymraeg - y ffeithiau](#)

### Sleid 20 –

Dyma rai enghreifftiau o brofiadau siaradwyr Cymraeg o gael eu hatal rhag defnyddio'u Cymraeg:

*“Stopiwyd fi gan mai dim ond Saesneg oedden nhw'n gallu siarad. Dylwn i allu siarad iaith fy ngwlad yn fy ngwlad fy hun. Fe wnes i barhau i siarad Cymraeg gan fod y bobl roeddwn i'n delio â nhw yn Gymry Cymraeg.”*

### Sleid 21 –

*“Roeddwn i yn y gwaith, roedden nhw'n dweud wrtha i am gadw at y Saesneg felly mae'n glir a bod pawb yn gallu deall be dwi'n ddweud, doedd o ddim wir yn fy rhoeni, nes i newid i Saesneg am weddill y shift.”*

### Sleid 22 –

*“Roedd yn rhaid i mi beidio siarad Cymraeg mewn cyfweiliad swydd oherwydd nad oedd y person yn deall Cymraeg.”*

### Sleid 23 –

Gwrandewch ar yr astudiaeth achos hon:

Yn dilyn ymchwiliad, dyfarnodd Comisiynydd y Gymraeg fod Bupa Dental Care wedi ymyrryd â rhyddid unigolyn i ddefnyddio'r Gymraeg tra roedd yn gweithio yn un o ddeintyddfeydd y cwmni.

Dyfarnodd y Comisiynydd fod Bupa wedi ymyrryd gyda'i ryddid drwy fynegi mewn e-bost, ac mewn llythyr dilynol ato, na ddylai gyfathrebu yn y Gymraeg gyda staff eraill.

Y rhesymau a roddwyd gan Bupa Dental Care dros yr ymyrraeth oedd bod angen osgoi gwallau gweinyddol a bod defnyddio'r Gymraeg yn yr achos dan sylw yn gyfystyr â thorri cytundeb swydd.

Nid oedd y Comisiynydd o'r farn bod cyfiawnhad i ymyrryd gyda'r rhyddid a oedd gan yr unigolyn yma i gyfathrebu yn Gymraeg gyda'i gydweithwyr.

Yn sgil yr ymchwiliad bu i Bupa Dental Care ymrwymo i roi sicrwydd i'w staff bod modd defnyddio'r Gymraeg yng Nghymru ac i dderbyn nad yw defnydd o'r Gymraeg yn y gwaith yn arwain at wallau.

### Sleid 24 –

Trafodwch -

- Ydych chi wedi cael profiad lle mae rhywun wedi eich atal chi neu ei gwneud yn anodd i chi ddefnyddio'r Gymraeg (e.e. mewn siop/caffi/ man hamdden)? Beth ddigwyddodd? Sut oeddech chi'n teimlo? Beth oedd eich ymateb i hyn?

### Sleid 25 –

Dylanwadu ar bolisi

Mae Tîm Polisi Comisiynydd y Gymraeg yn ceisio dylanwadu ar Lywodraeth Cymru a chyrrff eraill i sicrhau bod eu polisïau mewn meysydd pwysig fel:

- addysg,
- datblygu economaidd,
- tai a chynllunio ac
- iechyd a gofal

yn arwain at gynyddu'r nifer o bobl sy'n siarad Cymraeg ac yn cael y cyfle i wneud hynny o ddydd i ddydd.

### Sleid 26 –

Trafodwch -

- Ydych chi'n cytuno ei bod hi'n bwysig bod gan bobl Cymru yr hawl a'r rhyddid i siarad Cymraeg os ydyn nhw'n dymuno? Pam bod Mesur y Gymraeg 2011 yn bwysig yn hynny o beth?

### Sleidiau 27-32 –

#### Cwis

- Pryd cafodd swydd Comisiynydd y Gymraeg ei chreu?

(Gan Fesur y Gymraeg 2011.)

- Beth yw ystyr 'y sector cyhoeddus'?

(Y sector cyhoeddus yw awdurdodau lleol, cyrff cyhoeddus, y llysoedd a'r Llywodraeth.)

- Pwy yw Comisiynydd y Gymraeg, ac ers pryd mae hi yn y swydd?

(Efa Gruffudd Jones, ers mis Ionawr 2023.)

- Yn ôl ystadegau diweddar, faint o siaradwyr Cymraeg ddywedodd eu bod wedi cael profiad o rywun arall yn eu hatal rhag siarad Cymraeg yn eu bywydau bob dydd?

(18% o'r holl boblogaeth, 29% o bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed.)

- Beth yw gweledigaeth Comisiynydd y Gymraeg?

(Cymru lle gall pobl ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd a byw eu bywyd yn Gymraeg.)

### Cyflwyniad 3: Sefydliadau cyhoeddus yng Nghymru



#### Sleid 1 –

Tudalen deitl.

#### Sleid 2 –

Yn ôl Mesur y Gymraeg 2011 a Chomisiynydd y Gymraeg, mae'n rhaid i'r rhan fwyaf o sefydliadau cyhoeddus yng Nghymru ddarparu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg – hynny yw, cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg weld, clywed a defnyddio'r Gymraeg o fewn neu gyda'r sefydliadau hynny. Gall hyn fod yn ysgrifenedig, ar y ffôn, ar-lein neu wyneb yn wyneb.

#### Sleid 3 –

Yn ôl Comisiynydd y Gymraeg, mae'n hanfodol bod sefydliadau yn ei gwneud hi'n amlwg eu bod nhw'n cynnig gwasanaethau Cymraeg ac yn annog pobl i'w defnyddio:

*“Mae hybu gwasanaethau Cymraeg yn gofyn am fwy na dim ond eu darparu; mae angen i sefydliadau amlygu gwasanaethau Cymraeg.”*

#### Sleid 4 –

Mae hyn yn cynnwys:

- rhoi sicrwydd bod gwasanaeth Cymraeg ar gael;
- sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg o leiaf yr un mor hawdd, cyflym a didrafferth eu cael â rhai Saesneg;
- bod cychwyn y cyswllt yn Gymraeg yn ddiofyn, neu roi cynnig rhagweithiol i ddefnyddio'r Gymraeg;
- bod sicrwydd na fydd defnyddio'r Gymraeg yn rhoi defnyddwyr dan unrhyw anfantais o ran canlyniad neu gyflymder y broses; a
- sicrhau bod iaith y gwasanaeth yn hawdd ei deall.

#### Sleid 5 –

Mae'n rhaid i'r rhan fwyaf o sefydliadau cyhoeddus yng Nghymru fodloni dyletswyddau o ran y Gymraeg, sef Safonau'r Gymraeg sy'n cael eu gosod arnyn nhw gan Gomisiynydd y Gymraeg.

Mae Safonau'r Gymraeg yn rhyw fath o reolau neu gyfarwyddiadau sy'n gofyn i sefydliadau ymddwyn mewn ffordd benodol, neu wneud gweithredoedd penodol, mewn perthynas â'r iaith Gymraeg.

#### Sleid 6 –

Trafodwch -

- Beth yw pwrpas rheolau? Pam bod angen rheolau, yn eich barn chi? Pa fath o reolau ydych chi'n gorfod eu dilyn yn eich bywyd bob dydd? Beth yw effaith y rheolau hynny, tybed?

#### Sleid 7 –

Pwrpas Safonau'r Gymraeg yw:

- ei gwneud yn fwy eglur i bobl yng Nghymru beth i'w ddisgwyl gan sefydliadau o ran y Gymraeg, a'u galluogi i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ymwneud â'r sefydliadau;
- ei gwneud yn eglur i sefydliadau beth yw eu dyletswyddau nhw o ran y Gymraeg;



### **Sleid 8 –**

- gwella ansawdd gwasanaethau Cymraeg yng Nghymru fel eu bod cystal â gwasanaethau Saesneg;
- creu mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg;
- hybu a hwyluso'r Gymraeg, a sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

### **Sleid 9 –**

Pwy sy'n gweithredu Safonau'r Gymraeg?  
Mae dros 120 o sefydliadau cyhoeddus yn gweithredu safonau'r Gymraeg,  
yn cynnwys:

- Awdurdodau Lleol (sy'n cynnwys ysgolion)
  - Parciau Cenedlaethol
  - Gweinidogion yn Llywodraeth Cymru
  - Yr Amgueddfa Genedlaethol
  - S4C
  - Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol
  - Tribiwnlysoedd
  - Heddluoedd
  - Y Gwasanaeth Tân ac Achub
  - Colegau addysg uwch ac addysg bellach
  - Prifysgolion
  - Byrddau Iechyd
- a mwy.

Dros amser bydd mwy a mwy o sefydliadau yn dod o dan Safonau'r Gymraeg.

### **Sleid 10 –**

Mae Comisiynydd y Gymraeg, trwy Safonau'r Gymraeg, yn hybu'r Gymraeg ac yn gwneud yn siŵr nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn wahanol i'r Saesneg.

Mae angen i arweinwyr a rheolwyr sefydliadau cyhoeddus sicrhau eu bod yn defnyddio'r Gymraeg ac yn cefnogi eraill i ddefnyddio'r iaith gymaint ag sy'n bosib yn eu gwaith bob dydd.

### **Sleid 11 –**

Yn ôl Comisiynydd y Gymraeg:

*“Mae angen i sefydliadau greu mwy o gyfleoedd pwrpasol i alluogi aelodau'r gweithlu ddefnyddio'r Gymraeg.”*

### **Sleid 12 –**

Dylai sefydliadau ddefnyddio'r Gymraeg yn ysgrifenedig (e.e. gohebiaeth – llythyron, e-byst, ffurflenni, posteri, taflenni, gwefannau, ar y cyfryngau cymdeithasol ayyb), dros y ffôn, wyneb yn wyneb, ym maes technoleg gwybodaeth, sicrhau bod dogfennau a chyfarfodydd yn gwbl ddwyieithog, ac ati.

### **Sleid 13 –**

Yn ôl Comisiynydd y Gymraeg:

*“Wrth i fwy o wasanaethau symud ar lein ac wrth i sefydliadau hybu cyswllt person i berson yn ddigidol, rhaid sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael triniaeth lai ffafriol na'r Saesneg. Rhaid i sefydliadau sicrhau bod gwasanaeth digidol Cymraeg ar gael a'i fod yr un mor hwylus i'w ddefnyddio.”*

### **Sleid 14 –**

Erbyn hyn, mae nifer fawr o'r sefydliadau cyhoeddus sy'n gorfod bodloni Safonau'r Gymraeg yn cynnig dros 95% o'u tudalennau gwe yn Gymraeg.

Mae cynnydd flwyddyn ar ôl blwyddyn yn y defnydd o negeseuon Cymraeg ar gyfryngau cymdeithasol, ac erbyn hyn mae 90% o negeseuon X (Twitter) a Facebook sefydliadau ar gael yn Gymraeg.

### **Sleid 15 –**

Ond mae lle i wella o hyd:

Mae'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn 33% o'r tudalennau gwefan arolygwyd dros y flwyddyn.

### **Sleid 16 –**

Trafodwch -

- Pam ei bod hi'n bwysig bod sefydliadau'n defnyddio'r Gymraeg ar wefannau, ar y cyfryngau cymdeithasol ac mewn gwasanaethau digidol yn yr oes sydd ohoni, yn eich barn chi?

### **Sleid 17 –**

Mae Safonau'r Gymraeg hefyd yn annog sefydliadau cyhoeddus i:

- sicrhau bod cymaint â phosibl o'r gweithlu yn medru siarad Cymraeg, ac yn cael eu hannog i wneud hynny – trwy:
- roi mwy o werth ar y Gymraeg fel sgil bwysig ym myd gwaith;
- hysbysebu swyddi a recriwtio a phenodi mwy o siaradwyr Cymraeg lle bo'n bosibl;

### **Sleid 18 –**

- cynnal cyfweiliadau swyddi yn Gymraeg;
- cynyddu'r cyfleoedd i weithwyr ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith;
- cynnig gwersi Cymraeg i weithwyr nad ydynt yn siarad Cymraeg.

### **Sleid 19 –**

Ar draws y cyrff cyhoeddus sy'n gorfod bodloni safonau'r Gymraeg, mae 69% o hysbysebion swyddi ar gael yn Gymraeg.

### **Sleid 20 –**

Yn ôl Comisiynydd y Gymraeg:

*“Mae angen gweithluoedd dwyieithog ar gyflogwyr yng Nghymru, gan fod angen darparu gwasanaethau'n ddwyieithog.”*

### **Sleid 21 –**

Trafodwch -

- Pam bod y Gymraeg yn sgil mor bwysig ym myd gwaith erbyn hyn, yn eich barn chi?

### **Sleid 22 –**

Mae Safonau'r Gymraeg hefyd yn annog sefydliadau cyhoeddus i:

- Hybu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn eu sefydliad, a gwneud hynny mor hawdd â phosibl – trwy gynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg o fewn y sefydliad, gwneud pobl o fewn y sefydliad yn ymwybodol o'r Gymraeg a'u hannog i'w defnyddio.

### **Sleid 23 –**

Effaith Safonau'r Gymraeg:

- Mae 82% o'r sampl siaradwyr Cymraeg yn cytuno gyda'r datganiad “fel arfer rydw i'n gallu delio â sefydliadau cyhoeddus yn Gymraeg os ydw i'n dymuno gwneud hynny”.
- Mae 72% hefyd yn cytuno gyda'r datganiad bod gwasanaethau Cymraeg sefydliadau cyhoeddus yn gwella.

### **Sleid 24 –**

- Bellach, mae 95% o siaradwyr Cymraeg yn nodi eu bod yn derbyn cyfarchiad yn Gymraeg wrth wneud galwad ffôn i sefydliad cyhoeddus.
- Erbyn hyn, mae 95% o wefannau sefydliadau cyhoeddus ar gael yn Gymraeg.
- Mae 90% o negeseuon X (Twitter) a Facebook sefydliadau cyhoeddus ar gael yn Gymraeg.

### **Sleid 25 –**

- Mae bron i 75% o siaradwyr Cymraeg yn gweld fod cyfle iddynt ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd.
- Mae 26% o'r farn fod y cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd yn cynyddu.

### **Sleid 26 –**

Trafodwch -

- Ydy Safonau'r Gymraeg yn bwysig, yn eich barn chi, er mwyn annog mwy o bobl i ddefnyddio eu Cymraeg bob dydd?

### **Sleid 27 –**

#### **Cynllun Iaith Gwaith**

Ydych chi'n gyfarwydd â bathodyn iaith Gwaith, a chynllun iaith Gwaith y Comisiynydd, sy'n bodoli ers bron i 20 mlynedd bellach?

Mae gweithwyr sy'n gallu cynnig gwasanaeth Cymraeg i'r cyhoedd yn gwisgo bathodyn neu gortynnau gwddf â logo iaith Gwaith, sef y swigen siarad oren, arnynt, er mwyn annog pobl i ddefnyddio'u Cymraeg gyda nhw. Gall sefydliadau sy'n cynnig gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg arddangos posteri iaith Gwaith er mwyn gwneud y cyhoedd yn ymwybodol o hyn, hefyd.

## Sleid 28 –

Prif bwrpas cynllun Iaith Gwaith yw annog defnyddwyr i siarad Cymraeg yn gyntaf, a'i gwneud yn amlwg bod siaradwr neu wasanaethau Cymraeg ar gael.

Ers ei lansio yn 2005, mae'r swigen wedi ei defnyddio mewn amryw o ffyrdd, er enghraifft wedi ei gwnïo ar wisgoedd gweithwyr ysbyty, ar helmedi peirianwyr, ac fel tatws dros dro i blant.

Ar gyfartaledd, mae tua 50,000 o fathodynau, cortynnau gwddf a phosteri yn cael eu dosbarthu i sefydliadau cyhoeddus, busnesau, elusennau, ac aelodau o'r cyhoedd bob blwyddyn.

## Sleid 29 –

Os welwch chi aelod o staff neu aelod o'r cyhoedd yn gwisgo bathodyn neu gortyn gwddf Iaith Gwaith, cofiwch ddechrau sgwrs yn Gymraeg â nhw, felly!

- Gwylwch y clip fideo Defnyddia dy Gymraeg: [Defnyddia dy Gymraeg](#)

## Sleid 30 –

Trafodwch -

Pe byddech chi'n gweld gweithiwr mewn sefydliad cyhoeddus yng Nghymru yn gwisgo bathodyn neu gortyn gwddf Iaith Gwaith, fyddech chi'n debygol o siarad Cymraeg â nhw? Pam/ pam lai? Ydy hyn yn bwysig, yn eich barn chi?

## Sleidiau 31-36 –

### Cwis

- Beth yw Safonau'r Gymraeg?

(Rhyw fath o reolau neu gyfarwyddiadau sy'n gofyn i sefydliadau ymddwyn mewn ffordd benodol, neu wneud gweithredoedd penodol, mewn perthynas â'r iaith Gymraeg.)

- Beth yw pwrpas Safonau'r Gymraeg?  
(Gweler yr wybodaeth ar sleidiau 7 ac 8.)

- Faint o sefydliadau cyhoeddus sy'n gweithredu Safonau'r Gymraeg?  
(Dros 120.)

- Pa ganran o negeseuon cyfryngau cymdeithasol sydd bellach ar gael yn Gymraeg?

(90%)

- Beth yw pwrpas cynllun Iaith Gwaith Comisiynydd y Gymraeg?

(Prif bwrpas y cynllun Iaith Gwaith yw annog defnyddwyr i siarad Cymraeg yn gyntaf, a'i gwneud yn amlwg bod siaradwr neu wasanaethau Cymraeg ar gael.)

## Cyflwyniad 4:

### Busnesau/ sefydliadau preifat ac elusennau yng Nghymru



## Sleid 1 –

Tudalen deitl.

## Sleid 2 –

Yn wahanol i sefydliadau'r sector cyhoeddus, does dim rhaid i sefydliadau a busnesau preifat nac elusennau yng Nghymru fodloni Safonau'r Gymraeg, ond mae Comisiynydd y Gymraeg yn eu hannog yn gryf i gynnig gwasanaethau drwy'r Gymraeg.

## Sleid 3 –

Gall hyn olygu eu hannog i ddefnyddio'r Gymraeg, ochr yn ochr â'r Saesneg (e.e. wrth ymdrin â chwsmeriaid, ar arwyddion, mewn deunydd marchnata a gohebiaeth, ar y cyfryngau cymdeithasol); recriwtio staff dwyieithog a defnyddio'r Gymraeg yn fewnol yn eu sefydliad/ busnes neu elusen.

#### **Sleid 4 –**

Trafodwch -

Beth yw'r gwahaniaeth rhwng sefydliadau cyhoeddus, sefydliadau/ busnesau preifat ac elusennau/ y trydydd sector? Allwch chi feddwl am enghreifftiau o sefydliadau/ busnesau preifat ac elusennau?

#### **Sleid 5 –**

Trafodwch -

Beth yw eich profiad chi o ddefnyddio'r Gymraeg gyda sefydliadau/ busnesau preifat neu elusennau (e.e. mewn siop/ caffi?)

#### **Sleid 6 –**

Rhan o waith Comisiynydd y Gymraeg yw dangos i'r sefydliadau, busnesau ac elusennau hyn beth yw manteision cynnig eu gwasanaethau'n ddwyieithog.

Gwyliwch y clip fideo hwn:

[Cymraeg - Ffordd o Fyw](#)

#### **Sleid 7 –**

Trafodwch -

Beth, yn eich barn chi, fyddai manteision defnyddio'r Gymraeg i sefydliadau a busnesau preifat ac elusennau yng Nghymru?

#### **Sleidiau 8-10 –**

*Trafod a chrynhof rhai manteision:*

**e.e.**

- Byddai'n gwneud y sefydliad/ busnes/ elusen yn fwy hygyrch i fwy o bobl ac felly'n denu mwy o gwsmeriaid.

- Byddai'n arwydd bod y sefydliad/ busnes/ elusen yn dangos parch at y Gymraeg, diwylliant Cymru a siaradwyr Cymraeg.

- Byddai'n gwahaniaethu'r sefydliad/ busnes/ elusen wrth rai eraill a'i wneud yn fwy unigryw.

#### **Sleid 11 –**

Trafodwch -

- Tybed fedrwch chi feddwl am ragor o fanteision?

#### **Sleid 12 –**

Os ydyn nhw'n awyddus i wneud, bydd Comisiynydd y Gymraeg yn gweithio gyda sefydliadau a busnesau preifat ac elusennau i greu eu Cynllun Datblygu'r Gymraeg, ac yn rhoi hyfforddiant iddyn nhw ar sut i ddatblygu gwasanaethau dwyieithog.

Gallant wedyn dderbyn cydnabyddiaeth y Cynnig Cymraeg gan y Comisiynydd, er mwyn dangos i'w defnyddwyr eu bod yn ymfalchïo yn yr iaith Gymraeg ac yn barod i'w defnyddio.

#### **Sleid 13 –**

Heddiw, mae dros 100 o sefydliadau wedi derbyn cydnabyddiaeth Comisiynydd y Gymraeg, gan elwa o gydweithio gyda'r Comisiynydd ar eu Cynlluniau Datblygu'r Gymraeg a derbyn cydnabyddiaeth y Cynnig Cymraeg, gan hyrwyddo a datblygu dwyieithrwydd eu busnes.

#### **Sleid 14 –**

Enghreifftiau o fusnesau yw:

Archfarchnadoedd Lidl ac Aldi

Principality

Boots

Undeb Rygbi Cymru

Xplore (canolfan wyddoniaeth yn ardal Wrecam)

#### **Sleid 15 –**

Enghreifftiau o elusennau yw:

WWF Cymru

NSPCC Cymru

RSPB Cymru

Macmillan Cymru

Gwobr Dug Caeredin



## Sleid 16-20 –

Dyma farn ambell sefydliad/ busnes preifat ac elusen yng Nghymru ynglŷn â defnyddio'r Gymraeg o dan y Cynnig Cymraeg:

Dyma farn ambell sefydliad/ busnes preifat ac elusen yng Nghymru ynglŷn â defnyddio'r Gymraeg o dan y **Cynnig Cymraeg**:

“ Mae'n ofnadwy o bwysig i ni fel elusen addysgiadol fod ein buddiolwyr, gan gynnwys dysgwyr ifanc, yn gallu derbyn gwasanaeth yn Gymraeg a chlywed a phrofi terminoleg wyddonol yn ei chyd-destun. ”

Katie Williams,  
Swyddog Datblygu Busnes  
yn Xplore



“ Mae'r **Cynnig Cymraeg** yn rhoi hygredded i'n hymrwymiad i'r iaith Gymraeg. Mae hefyd yn ein helpu i ddatblygu'r ddarpariaeth Gymraeg yr ydym yn cynnig. ”

Brân Devey,  
Rheolwr Cyfathrebu ac  
Ymgysylltu Ramblers Cymru



“ Ein prif nod yw sicrhau ein bod yn gwneud cymaint â phosib i gefnogi siaradwyr a dysgwyr Cymraeg ifanc i gael cyfleoedd newydd trwy gymryd rhan yng Ngwobr Dug Caeredin. ”

Jessica Rumble,  
Swyddog Gweithredu gyda  
Gwobr Dug Caeredin Cymru



“ Trwy gefnogi cleientiaid banc bwyd yn ddwyieithog, gallwn ddarparu yr adnoddau angenrheidiol ar gyfer eu cefnogi yn yr hir dymor. ”

Joanna Hillier,  
Cynorthwydd Rhaglen  
Banc Bwyd Arfon



“ Yn Lidl, rydym wedi ymrwymo i fod yn fanwerthwr cynhwysol, ar gyfer ein cwsmeriaid, ein cymunedau, a'n cydweithwyr. Yng Nghymru, mae diogelu a hyrwyddo ein hiaith yn rhan enfawr o'r hyn y mae'n ei olygu i fod yn gynhwysol. ”

Ute Thomas, Cyfarwyddwr  
Rhanbarthol Lidl yng  
Nghymru



## Sleid 21 –

Gwylwch y clip fideo hwn sy'n crynhoi beth yw'r Cynnig Cymraeg:

[Cynnig Cymraeg \(dwyieithog\)](#)

## Sleid 22 –

Trafodwch -

- Ydych chi'n credu ei bod hi'n bwysig bod sefydliadau/ busnesau preifat ac elusennau yng Nghymru yn ymfalchïo yn y Gymraeg ac yn dangos i ddefnyddwyr eu bod yn barod i'w defnyddio, er nad oes rhaid iddyn nhw o dan Fesur y Gymraeg 2011?

## Cyflwyniad 5:

### Defnyddio'r Gymraeg mewn gweithgareddau chwaraeon



## Sleid 1 –

Tudalen deitl.

## Sleid 2 –

Trafodwch -

- Faint ohonoch chi sy'n mwynhau chwaraeon ac yn aelodau o glybiau chwaraeon y tu allan i'r ysgol?

## Sleid 3 –

Trafodwch -

- Faint ohonoch chi sy'n medru mwynhau'r chwaraeon hynny/ mynychu clybiau chwaraeon trwy gyfrwng y Gymraeg?

#### **Sleidiau 4-7 –**

Yn ôl ymchwil gan sefydliad Chwaraeon Cymru, mae siaradwyr Cymraeg yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn chwaraeon a gwirfoddoli.

- Mae disgyblion sy'n siarad Cymraeg yn fwy tebygol o fwynhau chwaraeon na disgyblion nad ydynt yn siarad Cymraeg.
- Mae disgyblion sy'n siarad Cymraeg yn fwy tebygol na disgyblion nad ydynt yn siarad Cymraeg o gymryd rhan mewn chwaraeon y tu allan i'r cwricwlwm deirgwaith neu fwy yr wythnos.
- Mae 46% o ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg yn cymryd rhan mewn chwaraeon y tu allan i'r cwricwlwm deirgwaith neu fwy yr wythnos, o gymharu â 35% o ddisgyblion nad ydynt yn siarad Cymraeg.
- Mae disgyblion sy'n siarad Cymraeg yn fwy tebygol na disgyblion nad ydynt yn siarad Cymraeg o gymryd rhan mewn chwaraeon mewn lleoliad clwb allgyrsiol a chymunedol unwaith yr wythnos o leiaf.

#### **Sleidiau 8-12 –**

- Mae disgyblion sy'n siarad Cymraeg yn fwy tebygol na disgyblion nad ydynt yn siarad Cymraeg o deimlo'n 'hyderus iawn' wrth roi cynnig ar chwaraeon newydd. Mae 31% o ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg yn teimlo'n 'hyderus iawn' wrth roi cynnig ar chwaraeon newydd, o gymharu â 25% o ddisgyblion nad ydynt yn siarad Cymraeg.
- Y tair prif gamp y mae disgyblion sy'n siarad Cymraeg yn cymryd rhan ynddynt unwaith yr wythnos o leiaf mewn clwb cymunedol yw pêl droed, nofio a rygbi.
- Mae disgyblion sy'n siarad Cymraeg yn fwy tebygol o wirfoddoli neu helpu gyda chwaraeon yn yr ysgol neu yn eu cymuned na disgyblion nad ydynt yn siarad Cymraeg. Mae 28% o ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg yn gwirfoddoli neu'n helpu gyda chwaraeon yn yr ysgol neu yn eu cymuned, o gymharu â 21% o ddisgyblion nad ydynt yn siarad Cymraeg.

#### **Sleid 13 –**

Ond...

Mae 50% o ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg yn parhau i fod eisiau mwy o gyfleoedd chwaraeon trwy gyfrwng y Gymraeg.

#### **Sleid 14 –**

Mae Comisiynydd y Gymraeg yn ceisio annog clybiau chwaraeon i ddefnyddio'r Gymraeg wrth hyfforddi plant, pobl ifanc ac oedolion.

Mae nifer o resymau pam y dylai clybiau chwaraeon ddefnyddio'r Gymraeg wrth hyfforddi.

#### **Sleid 15 –**

Trafodwch -

- Allwch chi feddwl am resymau pam ddylai clybiau chwaraeon ddefnyddio'r Gymraeg wrth hyfforddi plant, pobl ifanc ac oedolion? Beth fyddai manteision hyn i'r clybiau eu hunain ac i ddefnyddwyr?

*(e.e. Mae'n gyfle i ddenu mwy o aelodau a gwirfoddolwyr, a sicrhau bod yr aelodau presennol sy'n siaradwyr Cymraeg yn cael chwarae teg; Gall siaradwyr Cymraeg deimlo'n fwy hyderus a chyffyrddus wrth wneud chwaraeon neu wirfoddoli yn eu mamiaith.)*

#### **Sleid 16 –**

Mae modd i glybiau chwaraeon ddefnyddio'r Gymraeg wrth hyfforddi, yn ogystal â defnyddio'r Gymraeg wrth ohebu ag aelodau o'r cyhoedd (e.e. trwy lythyron, e-byst ac ar y cyfryngau cymdeithasol).

Gwylwch y clip fideo hwn am ddefnydd clwb rygbi'r Scarlets o'r Gymraeg:

[Defnyddia dy Gymraeg - Scarlets](#)

#### **Sleid 17 –**

Trafodwch -

- Ydych chi'n credu ei bod hi'n bwysig bod plant, pobl ifanc ac oedolion yn medru cymryd rhan mewn chwaraeon neu wirfoddoli gyda chlybiau chwaraeon trwy gyfrwng y Gymraeg, os ydyn nhw'n dymuno gwneud hynny?

## Cyflwyniad 6:

# Beth fedrwn ni ei wneud er mwyn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg?



### Sleid 1 –

Tudalen deitl.

### Sleid 2 –

Erbyn heddiw, mae bron i 75% o siaradwyr Cymraeg yn gweld bod cyfle iddynt ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd.

### Sleid 3 –

Trafodwch -

- A fydddech chi'n cytuno â'r datganiad hwn, o'ch profiad personol chi?

### Sleid 4 –

Trafodwch -

- Faint o gyfle ydych chi'n ei gael i ddefnyddio'r Gymraeg bob dydd? Oes digon/ dim digon o gyfle, yn eich barn chi?

### Sleid 5 –

Trafodwch -

- Ydych chi'n gwneud cymaint o ddefnydd ag y gallech chi o'r Gymraeg yn eich bywydau bob dydd?

### Sleid 6 –

Trafodwch -

- Ydych chi'n gallu gwneud cymaint o ddefnydd ag y bydddech chi'n ei ddymuno o'r Gymraeg yn eich bywydau bob dydd?

### Sleid 7 –

Yng nghyflwyniad cyntaf y pecyn hwn, nodwyd bod gan nifer fawr o sefydliadau yng Nghymru rôl i'w chwarae wrth helpu gwireddu nod Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Mae Comisiynydd y Gymraeg yn un o'r rheini, a phrif weledigaeth y Comisiynydd yw Cymru lle gall pobl ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd a byw eu bywyd yn Gymraeg.

### Sleid 8 –

Yn ôl y Comisiynydd:

*“Fel Comisiynydd y Gymraeg, dwi'n gweithio i wneud yn siŵr fod pobl Cymru, gan gynnwys plant, a phobl ifanc fel chi, yn medru mwynhau defnyddio'r iaith Gymraeg o ddydd i ddydd. Dwi eisiau i bob un ohonom fod yn gallu ei defnyddio a'i siarad fel iaith fyw a chyffrous, sy'n ffynnu heddiw ac i'r dyfodol.”*

### Sleid 9 –

Ond, mae'n bwysig cofio bod y Gymraeg yn perthyn i bawb yng Nghymru. Nid gwaith un person nac un sefydliad yw gwarchod y Gymraeg – mae'n gyfrifoldeb ar bob un ohonom i helpu ac i wneud ein rhan.

Gwylwch y clip fideo hwn:

[Defnyddia Dy Gymraeg](#)

### Sleid 10 –

Trafodwch -

- Beth allwch chi ei wneud er mwyn gwneud defnydd llawn o'r Gymraeg yn eich bywyd bob dydd?

### Sleid 11 –

Meddyliwch am eich defnydd o'r Gymraeg:

- yn yr ysgol
- gyda'ch ffrindiau
- gydag aelodau o'ch teulu
- yn gymdeithasol y tu allan i'r ysgol
- yn ddigidol/ ar y cyfryngau cymdeithasol
- gyda busnesau/ sefydliadau cyhoeddus/ preifat ac elusennau
- ym myd gwaith (e.e. swyddi penwythnos/ gwyliau).

### **Sleid 12 –**

Dyma ambell syniad sut y gallwch chi ddefnyddio eich Cymraeg wrth wneud defnydd o wasanaethau bob dydd:

[Os oes opsiwn, defnyddia'r Gymraeg](#)

[Archebu coffi](#)

[Twll yn wal](#)

[Hunan wasanaeth](#)

[Dewis iaith ar y ffôn](#)

[Byw yn Gymraeg](#)

[Defnyddia dy Gymraeg](#)

### **Sleid 13 –**

Trafodwch/ rhannwch syniadau -

- Ar ôl gwyllo cyflwyniadau'r pecyn hwn, beth yw'r prif resymau dros ddefnyddio cymaint â phosibl o'ch Cymraeg ym mhob agwedd o'ch bywyd, yn eich barn chi?

### **Sleid 14 –**

Dyma neges i gloi gan Efa Gruffudd Jones, Comisiynydd y Gymraeg:


**Fideo Ameer Davies-Rana**

[Cyfweliad gyda Chomisiynydd y Gymraeg](#)





# Adnoddau a chysylltiadau ychwanegol




- **Fideos byr yn seiliedig ar gynnwys y pecyn hwn:**

Yr Iaith Gymraeg heddiw (gyda throslais):

[Yr Iaith Gymraeg Heddiw 1](#)


Yr Iaith Gymraeg heddiw (heb droslais):

[Yr Iaith Gymraeg Heddiw 2](#)



- **Gwefan Comisiynydd y Gymraeg:**

[Comisiynydd y Gymraeg](#)



- **Gwefan IALC (International Association of Language Commissioners):**

[International Association of Language Commissioners - Home](#)